**Rhif: WG31062**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Cylchlythyr – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn

Diweddaru cyngor presennol sydd wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyrau 30/2007 (Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr), 78/91 (Perfformwyr Teithiol) a 76/94 (Y Polisi ar Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla Diawdurdod).

Dyddiad cyhoeddi: 27 Chwefror 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 22 Mai 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am fersiwn ddiwygiedig arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r canllawiau cynllunio cenedlaethol ynghylch Sipsiwn a Theithwyr. |
| **Sut i ymateb** | Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 22 Mai 2017. Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol.<br><br>**E-bost:**<br><br>Cwblhewch y ffurflen ymateb i ymgynghoriad yn Atodiad 2 ac anfonwch hi i:<br>planconsultations-h@wales.gsi.gov.uk<br><br>**Post:**<br><br>Cwblhewch y ffurflen ymateb i ymgynghoriad yn Atodiad 2 ac anfonwch hi i'r cyfeiriad isod:<br><br>Yr Ymgynghoriad ynghylch y Cylchlythyr ar Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn<br>Y Gangen Polisi Cynllunio<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 30/2007: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr<br>http://gov.wales/about/foi/publications-catalogue/circular/2007/gypsy/?lang=cy<br><br>Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 78/91: Perfformwyr Teithiol<br>http://gov.wales/topics/planning/policy/circulars/welshofficecirculars/circular7891/?lang=cy<br><br>Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 76/94: Y Polisi ar Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla Diawdurdod<br>http://gov.wales/topics/planning/policy/circulars/welshofficecirculars/circular7694/?lang=cy |
| **Manylion cyswllt** | Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:<br><br>Brian Davies<br>Brian.Davies18@wales.gsi.gov.uk<br>0300 025 3524 |

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Ynglŷn â beth mae'r ymgynghoriad hwn?

### Diben yr Ymgynghoriad

1. Daeth Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gyfraith yng Nghymru ar 17 Medi 2014 ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Yn arbennig, mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer ei ardal o leiaf bob 5 mlynedd. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddiwallu'r anghenion llety hynny a adnabuwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer ei ardal. Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniad wedi'i ddiweddaru o 'Sipsiwn a Theithwyr' sydd bellach yn cynnwys siewmyn teithiol a hefyd personau â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau canllaw ar Sipsiwn a Theithwyr dros y blynyddoedd diwethaf sy'n amcanu at gynorthwyo awdurdodau lleol i ateb eu gofynion fel a nodir dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r canllawiau hyn hefyd wedi'u bwriadu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn rheoli ac yn dylunio safleoedd yn briodol er mwyn darparu safon byw dda ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

3. Mae gan y system gynllunio rôl arwyddocaol o ran sicrhau y darperir safleoedd cynaliadwy sy'n gallu derbyn cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Cylchlythyr drafft hwn yn rhoi cyngor wedi'i ddiweddaru i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd cynaliadwy i ddiwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru.

### Beth yw'r prif faterion?

4. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno sicrhau y darperir ar gyfer anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru wrth gyflenwi gwasanaethau. Mae cyngor presennol ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 30/2007 – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr. Caiff Cylchlythyr 30/2007 ei ategu gan ddau Gylchlythyr gan y Swyddfa Gymreig, sef:

   - Cylchlythyr 78/91: Siewmyn Teithiol. Mae'r Cylchlythyr hwn yn cynnwys cyngor i awdurdodau lleol ynghylch ystyriaethau cynllunio sy'n ymwneud â siewmyn teithiol.
   - Cylchlythyr 76/94: Y Polisi ar Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla Diawdurdod. Mae'r cylchlythyr hwn yn cynnwys cyngor i awdurdodau lleol ynghylch gwersylla diawdurdod gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

   Nid yw cynnwys y Cylchlythyron hyn wedi newid ers iddynt gael eu cyhoeddi'n wreiddiol ym mis Rhagfyr 2007, mis Rhagfyr 1991 a mis Tachwedd 1994 yn y drefn honno.

5. Nid yw canllawiau cynllunio cenedlaethol presennol ar Sipsiwn a Theithwyr yn ystyried darpariaethau Deddf Tai (Cymru) 2014 a chanllawiau diweddaredig Llywodraeth Cymru ynghylch Sipsiwn a Theithwyr.

6. Er mwyn inni ddarparu llety cynaliadwy ar safleoedd ar gyfer cymunedau ein Sipsiwn a Theithwyr, mae'n rhaid inni sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol wedi'u harfogi

â'r offer perthnasol i roi arweiniad iddynt o ran eu gofynion i sicrhau y darperir yn llawn ar gyfer anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr trwy'r broses cynllunio.

**Ble ydym ni yn awr?**

7. Trwy gyhoeddi Cylchlythyr newydd bydd hyn yn sicrhau bod ein canllawiau polisi cenedlaethol yn adlewyrchu safbwynt deddfwriaethol a pholisi Llywodraeth Cymru ar Sipsiwn a Theithwyr yn llawn.

8. Mae'r Cylchlythyr drafft yn mynd i'r afael â'r agweddau cynllunio ar y gofyniad yn Neddf Tai (Cymru) 2014 i awdurdodau lleol lunio Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae hefyd yn sicrhau bod ein canllawiau cynllunio cenedlaethol yn adlewyrchu polisïau eraill ar Sipsiwn a Theithwyr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.[1] Mae hyn yn bwysig gan fod y dogfennau canllaw hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol o ran sut y dylai'r canfyddiadau data o'r Asesiadau o Anghenion Llety oleuo'r broses Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mewn perthynas â dyrannu safleoedd ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr.

9. Mae Cylchlythyr drafft yn ymdrin â'r materion canlynol hefyd:-

   - Y diffiniad diwygiedig o Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Tai (Cymru) sydd bellach yn cynnwys siewmyn teithiol. Byddai diweddaru'r diffiniad sydd wedi'i gynnwys mewn canllawiau cynllunio presennol yn canslo'r cyngor sydd wedi'i gynnwys yn y cylchlythyr presennol, sef Cylchlythyr 78/91 Siewmyn Teithiol;
   - Canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar wersylla diawdurdod. Byddai diweddaru'r wybodaeth hon yn ein canllawiau cynllunio cenedlaethol yn disodli'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyr 76/94, Y Polisi ar Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla Diawdurdod;
   - Sut y gallai gweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol fod o ddefnydd i bennu darpariaeth ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai gweithio rhanbarthol ddwyn manteision o ran cynllunio yn y dyfodol ar gyfer llety tramwy Sipsiwn a Theithwyr yn arbennig;
   - Gwybodaeth ffeithiol arall sydd wedi newid ers cyhoeddi Cylchlythyr 30/07; er enghraifft, cyfeiriadau at ddogfennaeth, deddfwriaeth a sefydliadau y dylid ymgynghori â hwy wrth gynllunio ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr.

**Beth ydym yn cynnig ei newid?**

10. Mae'r Cylchlythyr drafft yn cynnig nifer o newidiadau a nodir yn eu tro isod, ynghyd â chwestiynau sy'n gysylltiedig â hwy.

---

[1] Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr – Canllawiau, Llywodraeth Cymru, Mai 2015
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/150223-gypsy-traveller-accommodation-assessmentsv2-cy.pdf

Canllawiau ynghylch Rheoli Gwersylla Diawdurdod, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2013
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/131220-guidance-managing-unauthorised-camping-2013-cy.pdf

Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – Canllawiau, Llywodraeth Cymru, Mai 2015
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/150528-designing-gypsy-and-traveller-sites-cy.pdf

Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru - Canllawiau, Llywodraeth Cymru, Mai 2015
http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/150528-managing-gypsy-and-traveller-sites-cy.pdf

11. Mae'r diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' wedi cael ei ddiwygio o'r un a oedd wedi'i gynnwys yng Nghylchlythyr 30/07. Mae'r Cylchlythyr drafft yn adlewyrchu'r diffiniad sydd wedi'i gynnwys yn Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel ei fod bellach yn cynnwys siewmyn teithiol a hefyd personau â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol. Mae defnyddio'r diffiniad hwn o fewn y Cylchlythyr drafft yn gwella cysondeb, yn enwedig gan fod y diffiniad hwn yn cael ei defnyddio i asesu anghenion llety fel rhan o'r gofyniad bod pob awdurdod lleol yn cwblhau Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. I adlewyrchu'r diffiniad diwygiedig hwn, mae'r Cylchlythyr drafft yn cynnwys gwybodaeth am siewmyn teithiol sy'n ei gwneud yn bosibl canslo Cylchlythyr 78/91 – Siewmyn Teithiol.

12. Mae'r Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth gefndir wedi'i diweddaru ynghylch deddfwriaeth a chanllawiau diweddar sy'n diweddaru'r safbwynt ynghylch darparu safleoedd a llety priodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Yn y cyd-destun hwn, cyfeirir at yr amcanion a'r nodau perthnasol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, 'Teithio at Ddyfodol Gwell'. Cyfeirir ymhellach at ddyletswyddau Deddf Tai (Cymru) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro a darparu safleoedd priodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Cylchlythyr drafft hefyd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd o'r fath.

| |
|---|
| 1. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol am ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol sy'n gosod y cyd-destun i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd a llety priodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr? |
| 2. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol am bob math o safle yr ystyrir eu bod yn 'Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' dan ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol? |

13. Mae'r Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau sy'n egluro sut y dylai'r broses Cynlluniau Datblygu Lleol gyd-fynd â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014 i awdurdodau lleol fonitro anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr a darparu safleoedd priodol ar gyfer y cymunedau hyn. Yn arbennig, mae'n rhoi canllawiau i bob awdurdod o ran sut y dylent ddefnyddio canfyddiadau eu Hasesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr fel sail i ddarparu safleoedd yn ystod prosesau paratoi, monitro ac adolygu cynlluniau.

| |
|---|
| 3. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol i awdurdodau lleol sy'n egluro sut i ddefnyddio canfyddiadau eu Hasesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr fel sail i ddarparu safleoedd yn ystod y broses o baratoi CDLl? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |

14. Mae'r Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth newydd am yr amgylchiadau lle ystyrir y gallai gweithio'n rhanbarthol fod o fudd er mwyn darparu safleoedd priodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr trwy'r broses gynllunio. Mae'n nodi'r amgylchiadau lle gall awdurdodau lleol gydweithio i baratoi Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a

Theithwyr. Mae hefyd yn nodi sut y gall a sut na all yr wybodaeth hon gael ei defnyddio'n unigol gan awdurdodau lleol i adnabod anghenion a dyrannu safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr o fewn eu priod Gynlluniau Datblygu Lleol.

4. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol o ran sut y gall awdurdodau lleol gydweithio er mwyn adnabod anghenion a dyrannu safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn eu priod Gynlluniau Datblygu Lleol? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn?

15. Mae'r Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru am y modd y dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio dyrannu safleoedd ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr trwy broses y CDLl. Yn arbennig, mae'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau y dylid eu hystyried wrth adnabod darpariaeth o ran safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wedi cael eu cryfhau. Hefyd, mae'r ddogfen yn cyfeirio at ganllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru y dylai awdurdodau cynllunio lleol eu hystyried yn ystod y broses o ystyried safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i'w dyrannu o fewn eu priod Gynlluniau Datblygu Lleol.

5. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol i awdurdodau cynllunio lleol sy'n egluro sut y dylent ddyrannu safleoedd ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr trwy broses y CDLl? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn?

16. Mae'r Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau wedi'u diweddaru sy'n egluro sut y dylai awdurdodau lleol ystyried gwersylla diawdurdod o fewn eu hardaloedd, gan gyfeirio at ganllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Yn arbennig, mae'n nodi'r amgylchiadau lle dylai awdurdodau lleol ystyried darparu mannau aros dros dro.

6. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol ar gyfer awdurdodau lleol sy'n egluro pryd i ystyried safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn?

17. Mae'r Cylchlythyr drafft yn diweddaru'r amgylchiadau lle gall awdurdodau cynllunio lleol ystyried cynnwys polisi 'safleoedd eithriedig' ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr o fewn eu priod Gynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r Canllawiau wedi'u diweddaru'n ehangu'r amgylchiadau lle gellir defnyddio'r polisi hwn, fel nad yw'n gymwys i ardaloedd gwledig yn unig. Mae hyn yn cydnabod y ffaith y gall fod angen lleol mewn rhai achosion i ryddhau tir ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr mewn ardaloedd gwledig oherwydd diffyg safleoedd.

7. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol sy'n egluro'r amgylchiadau lle gallant gynnwys polisi 'safleoedd eithriedig' ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr o fewn eu priod Gynlluniau Datblygu Lleol? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn?

18. Mae'r Cylchlythyr drafft yn diweddaru'r wybodaeth a ddarperir am y weithdrefn y dylai awdurdodau cynllunio lleol ei defnyddio i ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys enghreifftiau o rwymedigaethau cynllunio posibl. Ystyriwyd fod angen diweddaru'r wybodaeth hon er mwyn rhoi canllawiau mwy perthnasol a chadarn i awdurdodau cynllunio lleol y dylid eu

hystyried wrth benderfynu ynghylch cynigion am safleoedd ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr.

| |
|---|
| 8. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau perthnasol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ynghylch materion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ynghylch cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |

19. Mae'r Cylchlythyr drafft yn diweddaru'r wybodaeth a ddarperir am weithdrefnau gorfodi mewn perthynas â datblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod. Mae bellach yn cynnwys cyfeiriadau at newidiadau deddfwriaethol diweddar i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sydd wedi cynyddu'r ystod o offer y gall awdurdodau cynllunio lleol eu defnyddio i gymryd camau gorfodi effeithiol. Hefyd, darperir gwybodaeth newydd am yr amgylchiadau lle gallai awdurdod cynllunio lleol gyflwyno hysbysiad atal dros dro er mwyn mynd ati ar unwaith i atal tir rhag cael ei ddatblygu ymhellach fel safle Sipsiwn a Theithwyr.

| |
|---|
| 9. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau perthnasol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ynghylch yr ystod o offer y gellir eu defnyddio er mwyn cymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn datblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |

20. Mae'r Cylchlythyr drafft yn rhoi eglurder pellach o ran y broses y gall awdurdodau cynllunio lleol ei dilyn wrth fonitro ceisiadau cynllunio a gyflwynir iddynt ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Yn arbennig, mae'n rhoi canllawiau sy'n egluro sut y gall data o'r fath gael ei ddefnyddio fel sail i Gynlluniau Datblygu Lleol.

| |
|---|
| 10. Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ynghylch monitro ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr? Os nad ydych, sut ddylid diwygio'r wybodaeth hon? |

21. Mae'r Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru yn yr atodiadau. Yn arbennig, mae'n darparu cyfeiriadau newydd at ddogfennaeth a sefydliadau sydd o ddiddordeb i Sipsiwn a Theithwyr yn **Atodiad A**.

| |
|---|
| 11. Ydych chi'n cytuno bod yr atodiadau wrth y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol am ystyriaethau ychwanegol sydd o bwys i awdurdodau lleol yn ystod y broses o ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr? Os nad ydych, sut y gellir eu diwygio neu eu gwella? |

22. Yn olaf, mae'r fersiwn ddrafft hon yn darparu'r canllawiau hyn ar ffurf Cylchlythyr yn hytrach na Nodyn Cyngor Technegol. Fe hoffem gael eich barn chi ynglŷn â'r fformat priodol ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau.

| |
|---|
| 12. Ydych chi'n cytuno mai Cylchlythyr yw'r fformat priodol ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau hyn? Os nad ydych, a ddylid eu cyhoeddi fel Nodyn Cyngor Technegol? |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

23. Caiff y cwestiynau penodol sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn eu nodi yn eu cyfanrwydd isod. Os ydych yn dymuno ymateb, cwblhewch y Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad yn Atodiad 2.

24. Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch perthnasol ar y ffurflen ymateb.

| | |
|---|---|
| C1 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol am ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol sy'n gosod y cyd-destun i awdurdodau lleol ddarparu safleoedd a llety priodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr? |
| C2 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol am bob math o safle yr ystyrir eu bod yn 'Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' dan ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol? |
| C3 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol i awdurdodau lleol sy'n egluro sut i ddefnyddio canfyddiadau eu Hasesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr fel sail i ddarparu safleoedd yn ystod y broses o baratoi CDLl? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |
| C4 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol o ran sut y gall awdurdodau lleol gydweithio er mwyn adnabod anghenion a dyrannu safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn eu priod Gynlluniau Datblygu Lleol? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |
| C5 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol i awdurdodau cynllunio lleol sy'n egluro sut y dylent ddyrannu safleoedd ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr trwy broses y CDLl? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |
| C6 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol ar gyfer awdurdodau lleol sy'n egluro pryd i ystyried safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |
| C7 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau priodol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol sy'n egluro'r amgylchiadau lle gallant gynnwys polisi 'safleoedd eithriedig' ar gyfer llety i Sipsiwn a Theithwyr o fewn eu priod Gynlluniau Datblygu Lleol? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |
| C8 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau perthnasol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ynghylch materion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ynghylch cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |
| C9 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu canllawiau perthnasol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ynghylch yr ystod o offer y gellir eu defnyddio er mwyn cymryd camau gorfodi effeithiol yn erbyn datblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod? Os nad ydych, sut ellir gwella'r canllawiau hyn? |
| C10 | Ydych chi'n cytuno bod y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ynghylch monitro ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr? Os nad ydych, sut ddylid diwygio'r wybodaeth hon? |
| C11 | Ydych chi'n cytuno bod yr atodiadau wrth y Cylchlythyr drafft yn darparu gwybodaeth briodol am ystyriaethau ychwanegol sydd o bwys i awdurdodau lleol yn ystod y broses o ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr? Os nad ydych, sut y gellir eu diwygio neu eu gwella? |
| C12 | Ydych chi'n cytuno mai Cylchlythyr yw'r fformat priodol ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau hyn? Os nad ydych, a ddylid eu cyhoeddi fel Nodyn Cyngor |

| | |
|---|---|
| | Technegol? |
| C13 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, rhowch wybod inni os gwelwch yn dda. |